# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 21 HYDREF 2021

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Cai Larsen (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Steve Collings, Alwyn Gruffydd, Selwyn Griffiths, Judith Humphreys, Elwyn Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Dewi Owen, Rheinallt Puw, Paul Rowlinson, Dewi Roberts a Mike Stevens.

**Aelodau Cyfetholedig:** Ruth Roe (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd), Manon Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) a Dilwyn Elis Hughes (UCAC).

**Swyddogion yn bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**

*Adran Addysg* Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg) a Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Meirion / Dwyfor)

*Gwasanaeth Cyfreithiol* Iwan Evans (Swyddog Monitro) a Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**

Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Dylan Griffiths (Rheolwr Rhaglenni Datblygu'r Economi) a Colin Morris (Rheolwr Cefnogi Busnes)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**

*Adran Addysg:* Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg), Diane Jones (Swyddog Addysg Ardal Arfon), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Meirion / Dwyfor), Rhian Parry Jones (Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd) a Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol ADY a Chynhwysiad)

*GwE:* Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr), Alwyn Lloyd Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Safonau), Elfyn Vaughan Jones (Uwch Arweinydd – Uwchradd), Sharon Vaughan (Arweinydd Craidd – Uwchradd) a Geraint Evans (Arweinydd Craidd – Cynradd)

*Penaethiaid:* Rhys Glyn (Pennaeth Ysgol Cefn Coch ac Ysgol Talsarnau), Dylan Minnice (Pennaeth Ysgol Botwnnog) a Bethan Morris Jones (Pennaeth Ysgol Pendalar)

Nododd y Cadeirydd fod heddiw'n nodi 55 mlynedd ers trychineb Aberfan ac ymdawelodd y pwyllgor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Nododd y Cadeirydd fod Anest Gray Frazer (Eglwys yng Nghymru) wedi ymddeol o'r pwyllgor yn ddiweddar, a diolchodd iddi am ei gwasanaeth gan ddymuno'n dda iddi yn y dyfodol.

Croesawyd y Cynghorydd Mike Stevens i'r cyfarfod.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorwyr Aled Evans a Mair Rowlands, Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig) a'r Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Economi).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Dewi Roberts fuddiant personol yn eitem 5 – Penderfyniad y Cabinet – 28-09-21 – Eitem 8 – Ysgol Abersoch - oherwydd ei fod yn llywodraethwr Ysgol Abersoch, ond oherwydd iddo gael ei benodi i'r rôl honno gan yr Awdurdod, nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd y Cynghorydd Selwyn Griffiths fuddiant personol yn eitem 6 – Yr Economi a Chefnogaeth i Fusnesau - oherwydd mai ei fab oedd awdur yr adroddiad i'r pwyllgor. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Mehefin, 2021 fel rhai cywir.

## 5. PENDERFYNIAD Y CABINET – 28-09-21 – EITEM 8 – YSGOL ABERSOCH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth yn nodi bod y penderfyniad a ganlyn wedi ei alw i mewn i'w graffu, yn unol ag Adran 7.25 o Gyfansoddiad y Cyngor:-

Eitem 8: Ysgol Abersoch, cyfarfod Cabinet 28.9.21

*"Cadarnhawyd yn derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr, 2022, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018."*

Eglurodd y Cadeirydd y gwnaethpwyd y cais i alw'r penderfyniad i mewn i'w graffu gan y Cynghorwyr Alwyn Gruffydd, Elwyn Jones a hithau o fewn y gofynion a'r amserlen angenrheidiol.

Nodwyd bod y rhesymau dros alw i mewn, sef yr agweddau o'r penderfyniad yr ystyrid y dylid eu craffu, ac sydd o fewn gofynion Cyfansoddiadol, wedi eu nodi fel a ganlyn:

*"1. Mae'r Adroddiad yn anghywir ac yn gamarweiniol rhan effaith ar y Gymuned, er enghraifft iaith a diwylliant Cymraeg - yn y tabl ar dudalen 714 mae yn dweud nad oes dim effaith ar yr Iaith.*

*2. Nid yw'r Adroddiad yn cymryd i ystyriaeth ddyfodol Tai a Gwaith fydd yn dod i rym yn y Pentref.*

*(a) Mae Datblygiad Newydd o godi Gwesty Newydd fydd yn creu beth bynnag 40 o swyddi llawn amser yn yr ardal - mi fydd y Gweithwyr a'u Teulu angen adnoddau yn cynnwys Addysg i ein plant.*
*(b) Mae Llywodraeth Cymru, yr Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd a Chymdeithas Tai (sydd yn berchen tir yn y pentref) ar hyn o bryd yn edrych i godi mwy o dai - mae Llywodraeth Cymru wedi dweud fod grant ar gael i ddatblygu y tir yma i godi o bosib 15 o dai.*
*Mae'r Gymdeithas tai wedi cadarnhau fod cynlluniau wedi gwneud yn barod ar safle Bryn Garmon.*
*Nid yw'r adroddiad yn sôn dim am y cynllun newydd gan yr Adran Tai ac Eiddo a dim am y datblygiadau sydd yn mynd ymlaen yn y Pentref ac felly nid yw'r Adran Addysg wedi ymateb i ofynion Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol wrth beidio gwneud hyn.*

*3. Mae pryder wedi ei ddatgan rhan y ffordd droed rhwng Abersoch a Sarn Bach mae yr Adran addysg yn dweud fod cyswllt wedi bod gyda'r Adran Ffyrdd ond nid oes dim byd pendant wedi ei gyflwyno rhan datrys y risg yma sydd yn rhoi disgyblion mewn peryg. Mae'r Adran Addysg yn sôn am drefniadau cludiant sydd wrth gwrs yn ychwanegu at hinsawdd ac yn enghraifft ddrwg i'r plant ar sut mae'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth effaith ar hinsawdd.*

*4. Mae un plentyn yn disgyn allan o'r cynnig i gael cludiant oherwydd polisïau oed - yn y dyfodol pan fydd rhifau plant yn cynyddu oherwydd (a) a (b) mae'n debyg bydd plant eraill yn cael gwrthod y cludiant yma ac felly yn dioddef rhan eu haddysg.*

*5.Y penderfyniad ydi i gau yr ysgol yn ganol y flwyddyn ysgol a does dim amheuaeth fod hyn am fod yn ddryslyd i'r plant ac eto mae hyn yn cael effaith negyddol ar eu haddysg does dim eglurhad pam a beth ydi y rhesymeg yn fan hyn.*

Er mwyn cynorthwyo'r pwyllgor i graffu ar y mater yn unol â'r agweddau o'r penderfyniad yr ystyrid y dylid eu craffu, cyflwynwyd y dogfennau isod i'r pwyllgor craffu hefyd:-

- Atodiad 1 – ymateb yr Adran Addysg i'r agweddau o'r penderfyniad yr ystyrid y dylid eu craffu
- Atodiad 2 – Taflen benderfyniad y Cabinet (Eitem 8, 28.9.21)
- Atodiad 3 – adroddiad y Cabinet (Eitem 8, 28.9.21)

Eglurodd y Swyddog Monitro y cyd-destun i benderfyniad y Cabinet ym mis Medi (fel yr amlinellwyd yn y rhan cyntaf o Atodiad 2 i'r adroddiad).

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun, gan nodi:-

- Ei fod o'r farn bod yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 28 Medi wedi ymdrin yn benodol â'r gwrthwynebiadau oedd yn ymwneud â'r effaith ar y gymuned ac ar yr iaith Gymraeg, datblygiadau posib' yn yr ardal, cludiant a theithio a dyddiad gweithredu'r cynnig.
- Y bu i'r materion hyn hefyd gael eu trafod ymhellach yn ystod cyfarfod y Cabinet, cyn dod i benderfyniad terfynol.
- Y byddai'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach, nid yn unig yn ymateb i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Abersoch, ond hefyd yn arwain at gyfleoedd mwy cyson i blant y dalgylch, drwy anelu at ddyheadau strategol y Cyngor i gynnig addysg o'r ansawdd uchaf bosib' i bob disgybl.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynglŷn â'r penderfyniad i gau Ysgol Abersoch yng nghanol blwyddyn ysgol, cadarnhawyd bod digon o amser i baratoi ar gyfer trosglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Mae yna ddarn o waith i'w wneud o ran lle mae rhieni yn dewis gyrru eu plant a'r ail gam fyddai llunio cynllun pontio manwl gyda staff yr ysgolion dan sylw, er mwyn sicrhau cefnogaeth i'r plant drwy'r cyfnod trosglwyddo. Nodwyd hefyd bod yr Adran wedi ymateb i sefyllfa gyffelyb o'r blaen, megis pan sefydlwyd Ysgol y Garnedd newydd ym Mangor.

Gwahoddwyd yr aelodau oedd wedi galw'r penderfyniad i mewn i gyflwyno eu sylwadau. Nodwyd:-

- Bod y Cabinet wedi dilyn llwybr di-droi nôl i gau Ysgol Abersoch, gan ddiystyru'r 3,000 o enwau oedd wedi gwrthwynebu, naill ai drwy ddeiseb neu sylwadau unigol. Diystyrwyd y tai newydd oedd yn cael eu codi yn Abersoch, a'r swyddi newydd oedd ar fin cael eu creu yn y pentref, ac ni roddwyd ystyriaeth wirioneddol i effeithiau'r penderfyniad ar y Gymraeg yn y pentref, na'r effaith ar lywodraethwyr, rhieni na disgyblion, sef yr ynys o Gymreictod yn y pentref.
- Bod y dadleuon dros gau'r ysgol yn amwys, a bod geiriau megis '*efallai'*, '*o bosib'* neu '*mae'n debygol'* yn codi'n aml yn yr adroddiadau.
- Nad oedd modd cynnal ymgynghoriad teg a chynhwysfawr yng nghanol y pandemig.
- Bod y Ddeddf Trefniadaeth Ysgolion yn nodi y dylai awdurdodau addysg ragdybio yn erbyn cau ysgol.
- Mai mater o lanw a thrai yw poblogaeth ysgol. Derbynnid bod y niferoedd wedi gostwng ar hyn o bryd, ond roedd rhagdybiaeth y byddai yna 11-12 o ddisgyblion yn yr ysgol y flwyddyn nesaf a'r flwyddyn ganlynol. Roedd dros 20 o ddisgyblion yn y dalgylch yn mynd i ysgolion eraill, a dyna, yn anffodus, sy'n digwydd pan mae dyfodol ysgol dan fygythiad.
- Ei bod yn drueni na roddwyd ystyriaeth i opsiynau eraill, megis ffederaleiddio.
- Na welid unrhyw fantais symud 7 plentyn i Ysgol Sarn Bach.

Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nododd y Pennaeth Addysg:-

- Bod y mater o gynnal yr ymgynghoriad yn ystod cyfnod pandemig wedi'i graffu eisoes gan y pwyllgor hwn, ac nad oedd hynny'n un o'r seiliau dros alw'r penderfyniad i mewn.
- Bod y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgol yn benodol ar gyfer ysgolion sydd wedi'u dynodi'n rhai bach a gwledig. Nid dyna'r achos yn Abersoch, ond er mwyn cynnig

cefnogaeth a bod yn dryloyw, roedd yr Adran wedi ymdrin â'r broses fel pe byddai'n ysgol fach a gwledig.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nododd aelod ei fod yn credu bod y ddogfennaeth helaeth a dderbyniwyd yn cyfarch y rhesymau dros'r penderfyniad i mewn.

Mewn ymateb i gwestiynau, nodwyd:-

- O ran yr effaith ar yr iaith Gymraeg ac ar y gymuned, bod asesiadau effaith wedi'u gwneud ar yr effaith bosib' ar y gymuned a'r iaith Gymraeg drwy gydol y broses. Gan fod yr asesiad o ran cau ysgol yn nodi y byddai yna effaith ar agweddau cymunedol o'r ysgol, ac o golli'r ysgol yn y gymuned, edrychwyd ar beth allai'r Cyngor ei wneud i liniaru'r effeithiau negyddol posib'.
- Bod yr Awdurdod yn gwneud popeth i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen ac Ysgol Abersoch fel bod modd pontio'r profiadau da mae'r disgyblion wedi gael yn Ysgol Abersoch i'r ysgol amgen. Roedd Ysgol Abersoch wedi bod yn weladwy iawn yn y pentref, ac roedd angen annog yr ysgol amgen i sicrhau bod y cydweithio gyda chymuned Abersoch yn parhau.
- Bod sefyllfa'r iaith Gymraeg yn gryf yn Ysgol Sarn Bach, gyda 57% o'r disgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg, o gymharu â 33% yn Ysgol Abersoch. Golygai hynny y byddai yna fwy o gyfleoedd i'r disgyblion ymarfer yr iaith Gymraeg o fewn y dosbarth ac ar yr iard. Roedd Ysgol Abersoch wedi gweithio'n galed i ddatblygu dwyieithrwydd disgyblion ac wedi hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, ac roedd y disgwyliad yr un mor uchel ar Ysgol Sarn Bach.
- O ran niferoedd plant, bod ffigurau Medi 2020 yn dangos bod yna 26 o blant 3-8 oed yn byw yn y dalgylch, gyda 5 ohonynt (19%) yn dewis mynychu Ysgol Abersoch a 21 (81%) yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch. Ym mis Medi eleni, roedd 20 o blant 3-8 oed yn byw yn y dalgylch, gyda 4 ohonynt (20%) yn dewis mynychu Ysgol Abersoch ac 16 (80%) yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch. O ran y sefyllfa bresennol, mae 7 plentyn yn mynychu Ysgol Abersoch, 4 ohonynt o'r dalgylch, a 3 yn all-dalgylch.
- Bod teithio yn rhan allweddol o bob adroddiad i'r Cabinet. Darperir cludiant eisoes ar gyfer disgyblion oedd yn mynd i Ysgol Sarn Bach o Flwyddyn 4 ymlaen, ac ni chredir y byddai darparu cludiant ychwanegol ar gyfer disgyblion Ysgol Abersoch yn arwain at gostau ychwanegol nac yn effeithio'n andwyol ar ôl-troed carbon.

Gwahoddwyd yr Aelod Lleol i gyflwyno sylwadau. Nododd:-

- Y dymunai ddiolch i'w gyd-aelodau am alw'r penderfyniad i mewn, a hefyd i lywodraethwyr yr ysgol, sydd wedi brwydro mor galed, ac i'r staff a'r plant a'r rhieni sydd wedi parhau i anfon eu plant i'r ysgol.
- Bod yna lawer o gwestiynau ynglŷn â'r rhesymau dros symud plant yng nghanol blwyddyn ysgol.
- Bod cynllun i godi 12-15 tŷ fforddiadwy yn y pentref yn mynd yn ei flaen, ac y byddai hyn yn cynyddu nifer y plant yn yr ardal dros nos.
- Ei bod yn debygol iawn hefyd y byddai cynllun i godi gwesty yn Abersoch yn mynd rhagddo, ac yn creu swyddi newydd yn yr ardal.
- Nad oedd yr adroddiad yn cyfeirio at ddyfodol y dalgylch na'r pentref, ac felly'n diystyru egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- Y dadleuwyd yn y Cyngor llawn yn ddiweddar y dylai'r premiwm treth cyngor gael ei wario yn yr ardaloedd lle mae'r dreth yn cael ei chasglu, ac nad oedd cyfeiriad yn yr adroddiad at unrhyw ymdrech i ddefnyddio arian y premiwm i geisio ariannu'r ysgol.
- Bod un ysgol gyfagos ymhell dros gapasiti, ond na chafwyd eglurhad pam bod hynny wedi gallu digwydd.
- Gan nad oedd un plentyn am gael cludiant i Ysgol Sarn Bach oherwydd polisi oedran y Cyngor, byddai'n cael ei amddifadu o addysg am flwyddyn.
- Na ddeellid y brys i gau'r ysgol erbyn 31 Rhagfyr eleni, yn enwedig pan fo gwybodaeth newydd yn dod i'r golwg.
- Y byddai'r effaith ar y diwylliant Cymraeg a'r iaith Gymraeg yn ergyd drom i'r ymdrechion a fu i gadw'r iaith yn fyw yn y pentref.
- Na ddeellid pam bod angen symud y plant cyn creu'r llwybr diogel i gerddwyr o Abersoch i Sarn Bach.
- Bod gan rieni'r hawl i anfon eu plant i unrhyw ysgol, a phwy oedd i ddweud y byddai rhieni Abersoch yn anfon eu plant i Sarn Bach? Nid oedd neb yn gwybod eto i ble y byddai'r plant yn mynd, na sut.
- Bod penderfyniad y Cabinet yn warthus, ac nad oedd yr adroddiadau yn ateb yr un o'r cwestiynau.
- Na ddeellid pam nad yw Ysgol Abersoch wedi ei chofrestru fel ysgol wledig. Cafwyd ar ddeall mai Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu ar hyn, ond roedd Llywodraeth Cymru yn dweud bod rhaid gofyn y cwestiwn i'r Cyngor. Hefyd, dywedwyd ar un adeg na ymgynghorwyd â'r Cyngor ynglŷn â hyn, ond roedd Llywodraeth Cymru yn dweud bod yna 3 ymgynghoriad wedi bod.
- Bod Ysgol Abersoch yn ysgol hynod o dda, ac y mawr obeithiai y byddai'r pwyllgor yn ystyried gyrru'r mater i'r Cyngor llawn am benderfyniad.

Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, eglurodd y Swyddog Monitro:-

- Gan na chafodd penderfyniad y Cabinet ym mis Mehefin eleni i gyhoeddi'r rhybudd statudol ei alw i mewn i'w graffu, bod hynny'n dirwyn y broses ymgynghori i ben.
- Mai rôl y Cabinet ym mis Medi oedd ystyried y gwrthwynebiadau i rybudd statudol oedd wedi'i gyhoeddi, a rôl y pwyllgor hwn yw ystyried ymateb y Cabinet i'r gwrthwynebiadau hynny, a bod honno'n drefn statudol gyda chyfnod statudol o'i chwmpas.
- Petai'r pwyllgor hwn yn gyrru'r mater yn ôl i'r Cabinet gyda phwyntiau nad oedd yn rhan o'r gwrthwynebiadau, neu'n faterion newydd, ni fyddai'r Cabinet mewn sefyllfa i gymryd y rheini i ystyriaeth.
- Bod gan y pwyllgor yr hawl i gyfeirio'r mater i'r Cyngor llawn i barhau â'r broses graffu, ond byddai'n rhaid bod yn glir am y rhesymeg dros wneud hynny. Hefyd, gan y byddai'r cyfnod 16 wythnos i gadarnhau'r rhybudd statudol yn dod i ben ganol Tachwedd, byddai'n rhaid galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor mewn da bryd i gyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet cyn i'r rhiniog statudol gael ei basio.

Mewn ymateb i'r pwynt diwethaf, awgrymodd yr Aelod Lleol nad oedd y ddadl ein bod yn rhedeg allan o amser yn dal dŵr, oherwydd y dylem fod wedi cymryd yr amserlen statudol i ystyriaeth yn ystod yr holl broses. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro ei bod yn anghyffredin gofyn i'r Cyngor llawn ymgymryd â'r rôl craffu, a beth bynnag fyddai rôl y Cyngor llawn, byddai'n ofynnol i'r mater fynd yn ôl i'r Cabinet i'w benderfynu.

Ar bwynt o gywirdeb, nododd y Pennaeth Addysg fod sylw'r Aelod Lleol fod un disgybl ddim yn gymwys i gael cludiant i Ysgol Sarn Bach yn gamarweiniol, a bod yr adroddiad yn cyfarch y cludiant i'r disgybl meithrin. Atebodd yr Aelod Lleol nad dyna gafodd ei ddweud

yn y Cabinet. Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Addysg fod yr Adran wedi adolygu'r sefyllfa unigol yn dilyn y Cabinet, ac wedi gwneud eithriad i'r polisi i sicrhau bod y disgybl yn cael cludiant i'r ysgol.

Nododd aelod:-

- Ei fod yn edmygu dygnwch ymgyrch daer y gymuned leol, yn cynnwys yr Aelod Lleol, y llywodraethwyr a'r rhieni a'r disgyblion a chyn-ddisgyblion, oedd wedi pledio eu hachos dros gadw'r ysgol yn agored er lles y plant a'r gymuned.
- Er hynny, roedd hefyd yn gweld dadl y Cabinet dros gau ysgol gyda 7 disgybl, ac nad oedd y ffigwr yma'n hyfyw, er cystal yr addysg.
- Bod y llywodraethwyr a'r rhieni yn teimlo'n rhwystredig nad ydynt wedi cael cyfarfod cyhoeddus wyneb yn wyneb gyda'r Awdurdod, a holwyd a oedd modd i'r Cabinet ystyried cynnal cyfarfod o'r fath er tegwch i bawb.

Mewn ymateb i'r sylw diwethaf, eglurodd yr Aelod Cabinet y cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus cyn cyfnod y pandemig.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y pwyllgor craffu yn cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ail-ystyried ar y sail na chafwyd ymateb digonol i'r ail reswm dros alw i mewn, sef datblygiadau tai a gwesty yn yr ardal.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant bod y pwyllgor craffu'n cyfeirio'r mater i'r Cyngor llawn oherwydd bod y mater yn llawer ehangach nag Abersoch, a bod angen rhoi cyfle i holl aelodau'r sir gael siawns i ymateb i hyn. Mewn ymateb i'r gwelliant, eglurodd y Swyddog Monitro nad oedd modd gofyn i'r Cyngor drafod yr holl broses trefniadaeth ysgolion, ac nad oedd y gwelliant yn golygu dim mwy na gofyn i'r Cyngor gyflawni'r rôl craffu yng nghyd-destun y pwynt penodol, sef yr ymateb i'r gwrthwynebiadau. Nodwyd hefyd bod angen bod yn glir beth oedd y rhesymeg dros ofyn i'r Cyngor llawn gyflawni'r rôl craffu yn yr achos hwn.

Nododd aelod na chredai bod gyrru'r mater yn ôl i'r union bobl oedd wedi gwneud y penderfyniad yn y lle cyntaf yn ddemocrataidd, ac y byddai'n fwy agored ac yn fwy tryloyw petai'r mater yn mynd gerbron y Cyngor llawn.

Er eglurder, cadarnhawyd mai'r gwelliant oedd bod y pwyllgor craffu'n cyfeirio'r mater i'w graffu mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor o fewn yr wythnos neu ddwy nesaf (i gyd-fynd â'r amserlen statudol), a bod hynny ar y sail na chafwyd ymateb digonol i'r 5 rheswm dros alw i mewn.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant, ac fe ddisgynnodd.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol i gyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ail-ystyried ar y sail na chafwyd ymateb digonol i'r ail reswm dros alw i mewn, sef datblygiadau tai a gwesty yn yr ardal, ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD bod y pwyllgor craffu yn cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ail-ystyried ar y sail na chafwyd ymateb digonol i'r ail reswm dros alw i mewn, sef:-**
***"2.Nid yw'r Adroddiad yn cymryd i ystyriaeth ddyfodol Tai a Gwaith fydd yn dod i rym yn y Pentref .***
***(a) Mae Datblygiad Newydd o godi Gwesty Newydd fydd yn creu beth bynnag 40 o swyddi llawn amser yn yr ardal - mi fydd y Gweithwyr a'u Teulu angen adnoddau yn cynnwys Addysg i ein plant.***
***(b) Mae Llywodraeth Cymru, yr Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd a Chymdeithas Tai (sydd yn berchen tir yn y pentref) ar hyn o bryd yn edrych i godi mwy o dai - mae***

***Llywodraeth Cymru wedi dweud fod grant ar gael i ddatblygu y tir yma i godi o bosib 15 o dai.***
***Mae'r Gymdeithas tai wedi cadarnhau fod cynlluniau wedi gwneud yn barod ar safle Bryn Garmon.***
***Nid yw'r adroddiad yn sôn dim am y cynllun newydd gan yr Adran Tai ac Eiddo a dim am y datblygiadau sydd yn mynd ymlaen yn y Pentref ac felly nid yw'r Adran Addysg wedi ymateb i ofynion Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol wrth beidio gwneud hyn."***

## 6. YR ECONOMI A CHEFNOGAETH I FUSNESAU

Croesawyd swyddogion yr Adran Economi a Chymuned i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned, ar gais y pwyllgor craffu, yn amlinellu pa gefnogaeth mae'r Cyngor yn ei roi i fusnesau, yn arbennig yn sgil y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r pandemig Covid-19.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nododd aelod, o ran cywirdeb, y dylai'r adroddiad gyfeirio at y Deyrnas Gyfunol, yn hytrach na'r Deyrnas Unedig.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Bod y cynnydd yn nifer yr ymholiadau a cheisiadau am gymorth gan fusnesau dros y 18 mis diwethaf wedi cyflwyno heriau i'r gwasanaeth o ran adnoddau ac o ran ail-gyfeirio a blaenoriaethu'r gwaith. Hefyd, roedd y gwasanaeth wedi ail-flaenoriaethu mwy tuag at gefnogi a chynnal busnesau i barhau, yn hytrach na datblygu a chreu swyddi o'r newydd, fel yn y gorffennol. Roedd mwy o fusnesau wedi dod i gyswllt â'r Cyngor yn ystod cyfnod y pandemig nag erioed o'r blaen, ac un o'r pethau cadarnhaol a ddeilliodd o hynny oedd sefydlu'r bwletin busnes, oedd bellach yn mynd allan o leiaf ddwywaith yr wythnos i dros 4,500 o fusnesau'r sir. Roedd y gwasanaeth hefyd wedi symud tuag at roi cyngor ynglŷn â materion ychydig ehangach o ran arferion da a sut i fabwysiadu technoleg newydd. Roedd yn rhaid rhoi ymdrech i mewn i'r gwaith o gynnal a sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei dosbarthu, ac roedd y gwasanaeth yn ail-drefnu eu hunain hefyd, gan chwilio am adnoddau trwy law'r Cyngor i'w galluogi i barhau gyda'r gwaith.
- Na chafwyd sgwrs benodol gyda'r Adran Tai ac Eiddo yn y cyfnod yma o ran cynorthwyo gweithwyr allweddol, ac ati, sy'n symud i mewn i'r ardal i ddod o hyd i rywle i fyw. Roedd trafodaethau'n mynd ymlaen gyda'r Adran o ran polisïau cynllunio, ac ati, ond roedd angen gwneud mwy o waith ar hynny. Eglurwyd nad prinder sgiliau oedd y brif gŵyn gan fusnesau ar hyn o bryd, ond prinder pobl i weithio i'r busnesau hynny, ac roedd hynny'n wir ar draws y sectorau. Cyfeiriwyd at ddarn o waith i geisio cefnogi pobl nad ydynt mewn gwaith i mewn i swyddi mewn meysydd lle mae bylchau, ond roedd graddfa'r broblem yn llawer ehangach nag a fu, a byddai'n rhaid edrych ar hyn yn ehangach gyda phartneriaid eraill, er mwyn cwrdd â lefel y galw presennol. Nodwyd ymhellach bod dros 120 o bobl wedi cael cymorth drwy'r Tîm Gwaith Gwynedd, ac er nad oedd hyn yn cyfarch y galw yn ei gyfanrwydd, roedd yna weithgaredd sylweddol wedi digwydd. Hefyd, fe geisiwyd cymryd rhywfaint o gamau bychan, ond ymarferol, i gefnogi busnesau, e.e. drwy hwyluso cael tudalennau ar Facebook, fel bod modd i fusnesau hyrwyddo'r cyfleoedd gwaith sydd ganddynt.

- Bod cyhoeddiad Llywodraeth Prydain ar y trefniadau grant i'r dyfodol, yn sgil diflaniad arian Ewropeaidd, wedi ei wthio nôl, ond roedd yn debygol y byddai yna ryw fath o gyhoeddiad yn dilyn yr adolygiad ariannol fis nesaf. Eglurwyd mai'r bwriad oedd cyhoeddi Cronfa Ffyniant Gyffredin, ac er nad oedd y trefniadau wedi'u cadarnhau eto, rhagwelid, yn hytrach na throsglwyddo swm o arian i Lywodraeth Cymru i'w ddyrannu yng Nghymru, y byddai'n rhaid i bob awdurdod ymgeisio'n uniongyrchol am yr arian yma o Lundain. Disgwylid y byddai yna arian cyfalaf ac arian refeniw, fel yn flaenorol, ond nid oedd yn glir a fyddai'r arian wedi ei gylchu'n benodol i Gymru, er i Lywodraeth Prydain ddweud y byddent yn parhau â'r cytundeb yma, ac y byddwn yn derbyn yn union yr un faint o arian.
- Bod y gwasanaeth yn bur bryderus am y sefyllfa. Yn wreiddiol, disgwylid cyhoeddiad, ond ni fu trafod gyda neb ynglŷn â beth fyddai cynnwys y cyhoeddiad hwnnw. Roedd yn gam ymlaen, o leiaf, bod gennym berthynas a'n bod yn gallu cael trafodaeth ar hyn o bryd i geisio dylanwadu, ond cwestiynid faint o wir ddylanwad oedd hynny mewn gwirionedd. Unwaith y byddai'r wybodaeth wedi ei chyhoeddi, byddai'r gwasanaeth mewn gwell sefyllfa i'w dadansoddi. Cafwyd arweiniad i ddisgwyl rhywbeth ar yr un llinellau â'r Gronfa Codi'r Gwastad a'r Gronfa Adfer Cymunedol, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, ond os mai dyna'r achos, byddai yna gryn le i bryderu. Awgrymwyd y dylid cyflwyno adroddiad pellach ar hyn i'r pwyllgor i'w graffu pan fydd mwy o wybodaeth ar gael.
- Bod y gefnogaeth i fusnesau newydd y cyfeirir ati yn yr adroddiad yn gymorth penodol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi busnesau oedd newydd gychwyn pan ddechreuodd y pandemig. Ymdrechwyd i roi cymorth i fusnesau gychwyn ac i dyfu drwy gyfnod y pandemig. Ail-gyfeiriwyd sylw ac adnoddau yn ystod y 18 mis diwethaf, nid yn unig gan y Cyngor, ond gan Lywodraeth Cymru hefyd, tuag at gefnogi cynnal a chadw busnesau yn y tymor byr, ond roedd y symudiad yn ôl fwy tuag at gefnogaeth ddatblygol yn dechrau rŵan. Roedd y galw am arian i ddatblygu neu dyfu wedi parhau'n eithaf cryf drwy gydol y cyfnod, ac yn dal yn rhyfeddol o gryf.
- O ran cyfeirio pobl tuag at gymorth, anogid pobl i ddod i gyswllt â'r gwasanaeth ac i gofrestru ar gyfer derbyn y bwletin busnes, gan fod hynny'n ffordd dda o fod yn effro i'r cymorth ymarferol a'r grantiau, wrth iddynt ddod ar gael. Nodwyd bod modd cofrestru drwy wefan y Cyngor, a chytunwyd i gylchredeg cyswllt uniongyrchol at aelodau'r pwyllgor yn dilyn y cyfarfod, fel bod modd iddynt annog busnesau lleol yn eu hardal i gymryd mantais o'r ddarpariaeth.
- Eglurwyd bod nifer o gronfeydd yn dal ar gael ar gyfer helpu busnesau i dyfu, ac anogwyd pobl i gysylltu â'r gwasanaeth yn y lle cyntaf. Yn fwy hirdymor, roedd angen adeiladu ar y cyfathrebu oedd wedi digwydd yn ystod y cyfnod Covid, gan fagu mwy o ymgysylltiad a deialog gyda busnesau, ac roedd yn flaenoriaeth gan y gwasanaeth yn y flwyddyn nesaf i gynyddu'r gallu a'r capasiti i wneud hynny, gan y bu hynny'n heriol yn hanesyddol, oherwydd maint yr adnoddau oedd ar gael.
- Nad oedd adnoddau'r gwasanaeth yn ddigonol i allu cynnal y berthynas gyda busnesau ar yr un lefel â'r flwyddyn a hanner diwethaf, ac roedd profiad y cyfnod diweddar hwn wedi dangos bod angen cryfhau'r adnodd er mwyn cynnal a chefnogi busnesau mewn mwy o fanylder.
- Er nad oedd gan y gwasanaeth yr arbenigedd i gynnig cymorth i fusnesau allforio, y gallai'r aelodau gyfeirio unrhyw fusnes yn eu hardal i sylw'r Rheolwr Cefnogi Busnes, fyddai'n dod o hyd i'r arbenigedd ar eu cyfer.

Diolchodd y Cadeirydd am yr adroddiad, gan ddymuno bob llwyddiant i'r Adran gyda'r bidiau.

Cyn bwrw ei bleidlais ar y mater, holodd y Cynghorydd Mike Stevens a ddylai ddatgan buddiant personol oherwydd bod ganddo fusnes cynhyrchu yng Ngwynedd a'i fod hefyd yn Gadeirydd Siambr Twristiaeth Rhanbarth Tywyn.

Mewn ymateb, eglurwyd bod y cyfle i ddatgan buddiant, dan eitem 2 ar y rhaglen, wedi mynd heibio, ond y byddai'r datgan buddiant yn cael ei nodi ar y pwynt yma. Ychwanegwyd nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac y gallai'r aelod symud ymlaen i fwrw ei bleidlais ar y mater.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan edrych ymlaen at gael mwy o wybodaeth ynglŷn â grantiau i fusnesau maes o law.**

## 7. GAGENDOR LLES A CHYRHAEDDIAD

Croesawyd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a'i gyd-swyddogion, swyddogion yr Adran Addysg a Phennaeth Ysgol Cefn Coch ac Ysgol Talsarnau, Pennaeth Ysgol Botwnnog a Phennaeth Ysgol Pendalar i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn cyflwyno gwybodaeth i'r pwyllgor craffu ar y Gagendor Lles a Chyrhaeddiad, gan gynnwys:-

- Effaith Covid ar addysg yr holl ddisgyblion;
- Pa gynlluniau sydd gan ysgolion o ran llesiant yr holl ddisgyblion

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun drwy nodi:-

- Er bod y gagendor lles a chyrhaeddiad wedi gwaethygu efallai yn ystod y pandemig, bod angen cydnabod bod y problemau hyn wedi bodoli ers rhai blynyddoedd.
- Bod presenoldeb swyddogion GwE yn y cyfarfod hwn yn tanlinellu pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda GwE, a bod hyn yn ein galluogi i ymateb yn bositif i'r broblem ddyrys yma.
- Ei fod yn awyddus i'r pwyllgor gael darlun drwy lygaid gweithwyr rheng flaen, a'i fod felly'n hynod ddiolchgar bod cynrychiolwyr o'r uwchradd, y cynradd ac arbennig yn y cyfarfod i rannu eu profiadau.

Ategwyd sylwadau'r Aelod Cabinet gan y Pennaeth Addysg, a nododd ymhellach:-

- Bod cyfnod y pandemig wedi bod yn gyfnod heriol iawn i'r ysgolion, a bod yr Awdurdod, GwE, yr ysgolion a phartneriaid eraill wedi cydweithio'n agos iawn er mwyn lleihau'r problemau i'r graddau mwyaf oedd yn bosib'.
- Bod adroddiad Estyn ynghylch i ba raddau roedd yr Awdurdod wedi bod yn llwyddiannus yn cefnogi dysgwyr yn ystod y cyfnod yma yn adroddiad clodwiw, a'i fod yn ymwybodol bod Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a'i dîm hefyd wedi derbyn adroddiad yr un mor ganmoliaethus ar eu gwaith hwy yn ystod y cyfnod hwn, oedd eto'n amlygu'r cydweithio rhyngddynt.

Gosododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE y cyd-destun i'r Strategaeth Adnewyddu a Diwygio, sy'n cefnogi lles a dysgu'r disgyblion ar draws Gogledd Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar Wynedd.

Yna derbyniwyd cyfres o gyflwyniadau gan swyddogion GwE, fel a ganlyn:-

- Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) – prif benawdau'r Strategaeth (Atodiad 1)
- Uwch Arweinydd – Uwchradd – blas o'r gwaith ymgysylltu gyda'r ysgolion i ddal cynnydd ac effaith y gweithredu sydd wedi bod hyd yma (Atodiad 2)
- Arweinyddion Craidd – Cynradd / Uwchradd – diweddariad ar y defnydd a'r effaith o'r Grant Cyflymu'r Dysgu (Atodiad 4)

Nododd aelod mai un sgil-effaith o'r cyfnod Covid yw'r diffyg cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a siarad ar lafar gyda'i gilydd, a bod y cyfeiriad yn y papurau at 'ailgodi' sgiliau llafar a thrafod Cymraeg yn tanlinellu bod rhywbeth wedi syrthio. O gofio mai prif bwrpas y Siarter Iaith yw hybu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg, holwyd beth fyddai rôl y Siarter Iaith yn y cyfnod hwn wrth geisio cyflymu'r dysgu, a pham nad oedd cyfeiriad penodol at waith allweddol y Siarter Iaith yn yr adroddiad cyflymu dysgu? Mewn ymateb, eglurwyd bod yr adroddiad hwn yn cyfeirio at ffocws y grant yn benodol. Yn dilyn cyflwyniadau GwE, byddai swyddogion yr Awdurdod yn ymhelaethu ar y gwaith partneriaethol sydd wedi digwydd rhwng yr Awdurdod a GwE, a byddai cyflwyniad Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd yn manylu ar ddylanwad y Siarter Iaith.

Derbyniwyd cyflwyniad gan Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd ar effaith y cyfnod Covid ar y Gymraeg mewn ysgolion. Mewn ymateb i'r cwestiwn penodol a godwyd ynghylch y Siarter Iaith, eglurodd:-

- Yr edrychwyd ar raglen waith y Cydlynydd Siarter Iaith a Chydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd y sir, a chefnogwyd ysgolion i weithredu prif flaenoriaethau'r Siarter Iaith drwy raglen waith y cydlynwyr hyn.
- Wrth ail-ddiffinio rolau a chynlluniau gwaith y cydlynwyr iaith ym mhob dalgylch o'r sir, a sicrhau bod y Cydlynydd Siarter Iaith a'r Cydlynydd Strategaeth Iaith yn eu cefnogi fel rheolwyr llinell, llwyddwyd i sicrhau parhad yng nghyfrwng addysg Gymraeg wrth i ddisgyblion drosglwyddo yn ôl i'r ysgolion yn dilyn y cyfnod clo, a hefyd wrth iddynt drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd.
- Y sicrhawyd hefyd bod holl gynlluniau clwstwr y Gymraeg, sy'n ymateb i grant y Gymraeg, yn cyd-fynd gyda deilliannau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y sir.
- Y cryfhawyd cydweithio rhwng y cynradd a'r uwchradd er mwyn sicrhau'r parhad ieithyddol, gan hefyd ymateb i anghenion lleol fydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Gwynedd gael defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol, a thrwy hynny gynyddu'r ganran o blant cynradd ac uwchradd sy'n hyderus i wneud defnydd o'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Cyfeiriodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE at y cynllun 'Ein Llais Ni', sy'n rhoi cyfle i ysgolion gydweithio â Phrifysgol Bangor a GwE i hyrwyddo sgiliau llafaredd dysgwyr, gan nodi y byddai'n falch o adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar yr union bwynt a godwyd ar ôl i'r cynllun gael cyfle i wreiddio.

Holodd aelod a oedd y strategaethau a'r camau y cyfeiriwyd atynt yn y cyflwyniadau yn gweithio fel y dylent, ac yn gwneud gwahaniaeth, ar draws Gwynedd. Mewn ymateb, eglurwyd:-

- Bod symudiad wedi bod yn rhanbarthol yn lled ddiweddar ynghylch y cynllun yma, o ran cefnogaeth wahanol i ysgolion, a bod hynny wedi gorfod digwydd yn sgil yr hyn a ddysgwyd drwy Covid.
- Mai'r drydedd goes oedd yr ysgolion, a'u parodrwydd a'u gallu i gydweithio.

- Bod gwaith da iawn yn mynd ymlaen, nid yn unig ar lefel sirol, ond ar lefel dalgylch hefyd, sy'n cael ei arwain gan yr Awdurdod a swyddogion GwE. Roedd cyfarfodydd cyson yn cael eu cynnal ynghylch ansawdd y ddarpariaeth i'r ysgolion a'r gefnogaeth, a hefyd i asesu i ba raddau mae hynny yn ei dro yn dangos cynnydd priodol.
- Credid ei bod yn ddyddiau cynnar, os nad yn gynamserol, i fod yn pwyso a mesur pa mor effeithiol ydi hynny ar hyn o bryd, ond roedd yr ysgolion, oherwydd sefyllfaoedd lleol, a'r graddau y mae Covid wedi amharu ar eu gallu i weithredu ar ryw lefel o normalrwydd, yn amrywio yn ôl y cyd-destun. Fodd bynnag, at ei gilydd, roedd wedi cael derbyniad da gan yr ysgolion. Roedd y cydweithio'n dda ac roedd effaith y gwaith yma i'w weld yn gynyddol wrth symud ymlaen.
- Yn naturiol, roedd yn mynd i fod yn heriol ar hyn o bryd i ysgolion ymdopi yn llawn ar y parhad yma yng nghyd-destun y daith wella, ond roedd yn ofyn arnom i gyd fod yn gwneud hynny. Gobeithid bod hynny'n cael ei wneud mewn modd sensitif a rhesymol, a chredid ein bod yn cefnogi ein hysgolion hyd eithaf ein gallu, gan gymryd y cyd-destun lleol i ystyriaeth.

Nododd aelod na ellid bod yn siŵr beth fydd effaith y cynlluniau yma, gan ei bod yn ddyddiau cynnar, ac edrychid ymlaen at gael adroddiad ar hynny. Nododd hefyd fod athrawon y sir wedi gwneud gwaith gwyrthiol ac arwrol dros y 18 mis diwethaf, gan roi lles y plant o flaen eu lles eu hunain, ac y dylid mynegi diolchiadau'r pwyllgor iddynt am eu holl waith.

Derbyniwyd cyflwyniad gan Swyddog Addysg Ardal Meirion / Dwyfor ar y Strategaeth Addysg Ddigidol (tudalen 241 o'r rhaglen).

Nododd aelod fod yr ysgolion a'r Awdurdod i'w llongyfarch am y ffordd y bu iddynt ymateb i'r her drwy ddarparu dyfeisiadau ar gyfer dysgu o gartref yn ystod y cyfnod clo, ac edrychid ymlaen at dderbyn adroddiad pellach ar y Strategaeth maes o law.

Mewn ymateb i gwestiwn, nododd Swyddog Addysg Ardal Meirion / Dwyfor, er ei bod yn dechnegol bosib' i'r ysgolion ail-fenthyg dyfeisiadau i blant sydd gartref o'r ysgol yn dioddef o Covid, neu'n hunan-ynysu, bod her mewn rhai cartrefi lle nad oes cysylltiad digon sydyn i fand llydan, neu ddim cysylltiad we o gwbl. Hefyd, er y byddai modd i blentyn sydd gartref gael mynediad i waith dosbarth sy'n disgyn i mewn i'r model dysgu cyfunol, nid oedd yn bosib' gwneud popeth dros y cyfrwng digidol, oherwydd y pwysau fyddai hynny'n ei roi ar yr athrawon. Nodwyd hefyd bod cyflenwad o ddyfeisiadau MiFi ar gael petai'r angen i ddysgu o bell yn codi eto.

Derbyniwyd cyflwyniad gan y Pennaeth Cynorthwyol ADY a Chynhwysiad ar effaith y cyfnod Covid ar y gwasanaeth ADY a CH (tudalen 242 o'r rhaglen)

Nodwyd bod pryder ym meddyliau plant ynglŷn â chymysgu a mynd yn ôl i'r ysgol a phwysleisiwyd pwysigrwydd bod yn effro i sut mae'r plant yn teimlo'n ddyddiol.

Nododd y Pennaeth Addysg y gwahoddwyd cyflwyniadau gan 3 phennaeth, yn cynrychioli'r proffesiwn i gyd, fel bod modd i aelodau'r pwyllgor glywed o'r rheng-flaen am yr heriau mae'r ysgolion wedi, ac yn parhau, i wynebu. Diolchodd i'r 3 am roi o'u hamser prin i ddod i annerch yr aelodau, ac i holl benaethiaid y sir am y gwaith maent wedi gwneud, ac yn parhau i'w wneud, dan amgylchiadau heriol ofnadwy.

Derbyniwyd cyflwyniadau gan yr isod:-

- Pennaeth Ysgol Cefn Coch ac Ysgol Talsarnau (cynradd)

- Pennaeth Ysgol Botwnnog (uwchradd)
- Pennaeth Ysgol Pendalar (arbennig)

Diolchodd y Cadeirydd i'r penaethiaid am eu cyflwyniadau, gan nodi bod clywed o'r rheng-flaen wedi bod yn agoriad llygaid i'r aelodau, ac wedi amlygu pa mor bwysig yw gwrando ar leisiau pobl o'r tu allan. Ychwanegodd y gallai'r pwyllgor roi sylw i graffu rhai o'r materion a godwyd fel mae'r blynyddoedd yn mynd yn eu blaenau. Awgrymodd hefyd y byddai wedi bod yn fuddiol petai'r pwyllgor wedi derbyn y cyflwyniadau hyn ar gychwyn, yn hytrach nag ar ddiwedd y cyfarfod. Nododd ymhellach ei bod yn falch o glywed bod y penaethiaid yn derbyn cefnogaeth gan yr Awdurdod, a diolchodd i holl staff yr ysgolion am eu holl waith er lles plant y sir.

Yn ystod y drafodaeth yn dilyn y cyflwyniadau, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Diolchwyd i'r penaethiaid am fod mor onest ynglŷn â'r heriau.
- Diolchwyd i'r Awdurdod ac i GwE am y cydweithio clir, a'r arweiniad clir a doeth i ysgolion yn ystod y cyfnod anodd hwn.
- Awgrymwyd y dylai'r Cyngor llawn glywed cyflwyniadau'r 3 phennaeth yn y dyfodol agos, fel bod pob cynghorydd yn deall beth sydd wedi bod yn digwydd, sut mae'r staff wedi gweithio mor galed drwy hyn, a beth yw'r heriau sy'n wynebu ysgolion i'r dyfodol. Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd y gellid edrych ar y posibilrwydd o roi'r cyflwyniadau i'r cynghorwyr i gyd.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â pha gefnogaeth ariannol fydd ar gael i'r ysgolion yn y dyfodol, a phwysleisiwyd yr angen i gydweithio i sicrhau bod yr ysgolion yn cael y gefnogaeth maent yn ei haeddu i'r dyfodol.
- Nodwyd mai'r garfan sydd wedi dioddef fwyaf yn sgil y pandemig ydi'r bobl ifanc, a'u bod wedi eu hamddifadu o ran allweddol o'u magwraeth ac o'u cysylltiadau â phobl eraill.
- Nodwyd, er bod y We wedi bod yn fendith i gysylltu'r hefo'r disgyblion, ac i'r disgyblion gyfathrebu â'u cyfoedion, nad oedd cysylltu ar y We yn brofiad braf bob amser, a holwyd a welwyd cynnydd sylweddol yn y materion hynny ers y cyfnod clo? Mewn ymateb, nodwyd na welwyd cynnydd yn y problemau o ran rhwydweithiau cymdeithasol, a bod y broblem wedi tawelu rhywfaint yn y blynyddoedd diwethaf wrth i bawb ddod yn fwy hyddysg o ran gwybod sut i'w ddefnyddio'n ddoeth. O ran y defnydd ohono ar gyfer dysgu, roedd Hwb yn creu sefyllfa eithaf diogel ar gyfer y disgyblion o ran y dysgu ar-lein a'r cydweithio rhwng yr athrawon a'r disgyblion, a'r disgyblion â'i gilydd.
- Nodwyd na ellid gor-bwysleisio ymdrech y darparwyr addysg a'r staff, ac y byddai'n rhaid parhau i roi cefnogaeth iddynt i'r dyfodol, gan nad ydw'r pandemig drosodd.

Yn ei sylwadau cloi, nododd yr Aelod Cabinet fod gwahodd cynrychiolwyr o'r rheng-flaen i annerch y craffwyr wedi bod yn ddatblygiad newydd yn y pwyllgor hwn, a'i fod yn awyddus i ymestyn hynny, gan gymryd i ystyriaeth efallai y dylai'r cyflwyniadau ddod ar gychwyn, yn hytrach nag ar ddiwedd y cyfarfod yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chofnodi ein diolchiadau i'r gweithlu am eu cyfraniad yn ystod y 18 mis diwethaf.**

## 8. RHAGLEN WAITH CRAFFU DDIWYGIEDIG

Cyflwynwyd rhaglen waith craffu ddiwygiedig ar gyfer 2021/22.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen waith ar gyfer cyfarfod 9 Rhagfyr, a thrafod gweddill y rhaglen yn y cyfarfod anffurfiol i ddilyn y pwyllgor.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 2.30 y.h.

**CADEIRYDD**